



Ysgol Pentreuchaf

92. Polisi Gwahardd Disgyblion

Canllawiau

1. Ni ddylid penderfynu gwahardd plentyn am gyfnod penodedig neu'n barhaol ond os bydd disgybl wedi torri Polisi Disgyblaeth yr ysgol, neu/ac os byddai gadael i'r disgybl aros yn yr ysgol yn gwneud niwed i addysg neu les disgybl neu ddisgyblion eraill yn yr ysgol.
2. Cyn gwahardd plentyn, dylid yn y mwyafrif o achosion, roi cynnig ar ystod o strategaethau eraill.
3. Sefydlu Is-Bwyllgor Disgyblu sy'n cynnwys 3 aelod o Gorff Llywodraethol yr ysgol gyda'r hawl dirprwyedig i ymwneud â gweithdrefnau gwahardd. Ni ddylai'r Is-Bwyllgor hwn chwarae unrhyw ran mewn prosesau disgyblaeth eraill a allai lygru'r aelodau o safbwynt y broses wahardd.
4. Rhaid dilyn y camau a nodir gan yr A.A.LI. a dogfen Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Arweiniad Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol' (Cylchlythyr 3/99).
5. **Mae Atodiad E** (o 'Arweiniad Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol') **yn ffurfio cyfarwyddyd y mae'n rhaid i benaethiaid, cyrff llywodraethol, A.A.LI. a phaneli apêl roi ystyriaeth iddo wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â gwahardd disgyblion o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.**
6. Yn syml, dyma'r drefn o dan Adran 64 o Ddeddf 1998 –
 - i) Dim ond y pennaeth sydd â'r pŵer i benderfynu a ddylid gwahardd disgybl a'i peidio. Rhaid i'r pennaeth hysbysu'r rhieni am y gwaharddiad, hysbysu Is-bwyllgor Disgyblaeth y Corff Llywodraethol a'r A.A.LI. ar unwaith a threfnu gosod a marcio gwaith i'r disgybl.
 - ii) Cyfrifoldeb yr Is-bwyllgor Disgyblaeth yw sefydlu'r cyfarfod i ystyried gwaharddiad, trefn y cyfarfod a'r hyn sy'n digwydd ar ôl y cyfarfod.
 - iii) Cyfrifoldeb yr A.A.LI. yw cynghori'r Is-bwyllgor Disgyblaeth, sefydlu panel apêl, trefnu'r gwrandawriad, apwyntio clerc i gofnodi trafodaethau'r panel apêl, trefn y gwrandawriad, trefnu tystiolaeth a thystion a'r hyn sy'n digwydd ar ôl y gwrandawriad.
7. Mae rhestr o gamau unioni eraill sydd ar gael i rieni.

Casgliad

Rhaid darllen y cyfarwyddiadau a nodir yn 5. uchod a'u dilyn yn ofalus i sicrhau ein bod yn dilyn y drefn er mwyn tegwch i'r plentyn a'r ysgol.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____